# PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf, 2021.

Mae'r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd G.C. Kemp (Cadeirydd); Y Cynghorydd Ms. R.M. Birch (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr S.J. Griffiths, N.P. Hodges, Mrs. J.M. Norman, Mrs. S.D. Perkes a N.C. Thomas.

Aelodau cyfetholedig: Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig) a Mrs. J. Lynch-Wilson (Rhiant-lywodraethwr – Sector Cynradd).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr N. Moore (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau) ac L. Burnett (Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio).

196 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn:

"A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio ar y rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn yn cael ei archifo i'w wylio yn y dyfodol".

197 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr T.H. Jarvie ac A.C. Parker.

198 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin, 2021 fel cofnod cywir.

199 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

200 YMATEB I YMGYNGHORIAD: CYNLLUN GWEITHREDU CYDRADDOLDEB HILIOL DRAFFT LLYWODRAETH CYMRU (CYF) -

Cyflwynwyd y sylw o gyfarfod y Cabinet ar 7 Mehefin 2021 i'r Pwyllgor fel y nodwyd yn yr agenda.

Roedd yr adroddiad yn crynhoi agweddau allweddol ar Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol (CGCH) drafft Llywodraeth Cymru i greu Cymru Wrth-hiliol a thynnodd sylw'r Cabinet hefyd at ymateb drafft i'r ymgynghoriad ar y Cynllun (Atodiad A). Er mwyn llywio ymateb drafft y Cyngor i'r ymgynghoriad, ceisiwyd sylwadau gan swyddogion ar draws Gwasanaethau'r Cyngor, y Rhwydwaith Staff Lleiafrifoedd Ethnig a'r Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldeb a'u hymgorffori yn yr ymateb drafft.

Nododd yr Aelodau fod y cynllun yn uchelgeisiol ac y dylid annog cyfranogiad y Rhwydwaith Lleiafrifoedd Ethnig gan y gallai eu cyfraniad helpu i ganolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â hiliaeth ac anghydraddoldeb.

Nododd y Cynghorydd Mrs. Perkes ei bod yn ymddangos bod diffyg uchelgais ymhlith lleiafrifoedd ethnig, a gofynnodd beth oedd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn. Atebodd y Pennaeth Safonau a Darpariaeth fod Gyrfa Cymru yn darparu cymorth yn y maes hwn. Fodd bynnag, roedd Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor wedi'i rannu ag ysgolion ac, mewn ymgynghoriad â Phenaethiaid, CLlLC a phobl ifanc, roedd cynlluniau ychwanegol yn cael eu datblygu i fynd i'r afael â'r diffyg hwn.

Wedi ystyried y sylw, penderfynwyd y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD – Cymeradwyo ymateb drafft yr ymgynghoriad.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Er mwyn galluogi cyflwyno ymateb i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau, 15 Gorffennaf, 2021.

201 EFFAITH PANDEMIG CORONAFIRWS AR IECHYD CYMDEITHASOL, EMOSIYNOL A MEDDWL PLANT A PHOBL IFANC YM MRO MORGANNWG A THROSOLWG O'R GEFNOGAETH A DDARPERIR GAN YR AWDURDOD LLEOL (CDS) –

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r Aelodau am y profiadau a'r safbwyntiau a nodwyd yn arolwg Coronafeirws a Fi Comisiynydd Plant Cymru ym mis Ionawr 2021 a sut roedd yr Awdurdod Lleol wedi cefnogi plant a phobl ifanc

Ym mis Mai 2020 a mis Ionawr 2021, chynhaliodd y Comisiynydd Plant arolwg o blant a phobl ifanc ledled Cymru i gael gwybod am eu profiadau yn ystod pandemig y coronafeirws. Roedd yr adroddiad a geir yn Atodiad 1 yn dangos canlyniadau'r ail arolwg. Roedd y Comisiynydd Plant yn glir y dylid defnyddio'r wybodaeth yn yr adroddiad i lywio camau nesaf yr Awdurdod Lleol i gefnogi plant a phobl ifanc yn hytrach na chymharu Awdurdodau Lleol â'i gilydd.

Roedd yr arolwg yn benodol i gyfnod y cyfyngiadau symud ac roedd y cwestiynau'n adlewyrchu'r cyfyngiadau yr oedd plant a phobl ifanc yn eu profi ar y pryd hwnnw. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau am emosiynau plant a phobl ifanc, eu hiechyd meddwl, eu cymorth lles a'u haddysg, yn ogystal â gwasanaethau ehangach, gwybodaeth, chwarae a hamdden.

Roedd SELFIE (Dysgu Cymdeithasol ac Emosiynol ar gyfer Gwella mewn Addysg) yn arolwg ar-lein a gwblhawyd gan ddisgyblion o Flwyddyn 2 ymlaen i gasglu eu barn am eu lles cymdeithasol ac emosiynol. Defnyddiwyd gwybodaeth yr arolwg gan staff yr ysgol i fynd ati'n rhagweithiol i olrhain lles disgyblion, ymateb iddo a'i fonitro.

Dangosodd y ddau arolwg fod y rhan fwyaf o blant wedi dangos gwydnwch rhyfeddol yn ystod y pandemig, ond yn ddi-os roedd wedi effeithio'n negyddol ar rai pobl ifanc, a chyflwynodd Swyddogion ffigurau allweddol i'r Aelodau a oedd yn cyfleu hyn.

Dywedodd Swyddogion fod y Gyfarwyddiaeth wedi bod yn pryderu am iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc ers sawl blwyddyn. Yn 2019, datblygwyd strategaeth yn seiliedig ar yr ymchwil ddiweddaraf yn y maes hwn a oedd yn ymgorffori dealltwriaeth o Drawma Datblygiadol, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACES), theori Ymlyniad a niwrowyddorau iechyd meddwl ac afiechyd. Roedd y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r strategaeth hon, ynghyd â chymorth penodol a ddarparwyd gan yr Awdurdod Lleol o ganlyniad i'r pandemig, wedi galluogi plant a phobl ifanc i gael cymorth priodol mewn perthynas ag iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol.

Ar ôl cael caniatâd i siarad, diolchodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio i'r Swyddogion am yr adroddiad cynhwysfawr ac roedd yn falch y byddai'n gallu dweud wrth y rhwydwaith Cynghorau Ysgol, a oedd wedi nodi bod angen mwy o bwyslais ar faterion iechyd meddwl, fod y mater hwn wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor.

Roedd y mwyafrif llethol o'r Aelodau'n croesawu ac yn canmol yr adroddiad am ei ansawdd a'i lefel o fanylder, a nododd yr hoffent glywed yr wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn yn y dyfodol. Mewn ymateb i ymholiadau gan Aelodau, rhoddodd Swyddogion wybod am y canlynol:

- Roedd Arolwg y Comisiynydd Plant yn ddienw, ond gall data a gafwyd trwy SELFIE roi rhyw syniad o ran a oedd natur wledig yr ardal lle'r oeddent yn byw wedi effeithio ar les plant yn ystod y cyfyngiadau symud o ganlyniad i allgáu. Fodd bynnag, awgrymwyd y byddai tlodi, yn hytrach na natur wledig yr ardal, wedi cael mwy o effaith.
- O ran yr effaith yn ôl oedran a rhyw, roedd tystiolaeth a gasglwyd o'r arolygon yn awgrymu y bu mwy o effaith ar ferched yn eu harddegau cynnar, a oedd wedi cael mwy o atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth lefel uwch, ond roedd hyn yn dal i fod yn ddarlun newidiol.
- Gan fod adroddiad y Comisiynydd Plant wedi categoreiddio dysgwyr hŷn mewn categori 12-18, roedd yn anodd mesur yr effaith ar les disgyblion blwyddyn arholiadau, ond roedd nifer o ymatebwyr wedi tynnu sylw at eu pryderon ynghylch cymwysterau allanol ac roedd y Gyfarwyddiaeth wedi cael gwybod am – neu wedi ymdrin â – nifer o ddigwyddiadau unigol oedd yn ymwneud â hyn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am yr adroddiad ac, ar ôl ystyried yr adroddiad a'i gynnwys yn llawn, penderfynwyd y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD –

(1) Bod canlyniadau adroddiad Coronafeirws a Fi'r Comisiynydd Plant a data'r Awdurdod Lleol sy'n amlinellu effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc ym Mro Morgannwg yn cael eu nodi.

(2) Bod y ffaith bod yr Awdurdod Lleol wedi nodi effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc cyn y pandemig a'i ddull strategol o fynd i'r afael â hyn yn cael ei gydnabod.

(3) Bod y cymorth cyffredinol ac wedi'i dargedu y mae'r Awdurdod Lleol wedi'i roi i gefnogi lles plant a phobl ifanc fel rhan o ddull strategol ac mewn ymateb uniongyrchol i'r pandemig yn cael ei gydnabod.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-3) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

202 CWRICWLWM I GYMRU: Y DAITH I 2022 (CDS) –

Rhoddodd yr adroddiad yr wybodaeth ddiweddaraf am Gwricwlwm i Gymru a oedd i gael ei gyflwyno mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariannwyd o fis Medi 2022.

Roedd yr adroddiad a'r cyflwyniad a roddwyd gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol Cwricwlwm Consortiwm Canolbarth y De (CCD) yn cyfeirio at y disgwyliadau a rennir ar gyfer ysgolion, fel y'u nodir yn y ddogfen 'Cwricwlwm i Gymru: Y Daith i 2022'. Amlinellodd yr amrywiaeth o ddysgu a chymorth proffesiynol a ddarperir gan CCD i bob ysgol ym Mro Morgannwg. Cyfeiriodd yr adroddiad hefyd at yr ysgolion a oedd wedi ymgysylltu â'r cyfleoedd dysgu proffesiynol, gan gynnwys cyfarfodydd rhwydwaith a rhaglenni allweddol.

Yn dilyn y cyflwyniad, dywedodd yr Aelod Cabinet, gyda chaniatâd i siarad, fod Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor wedi cael cyflwyniad y bore hwnnw gan Ysgol Gynradd Ynys y Barri lle buont yn trafod sut roedd 'Prosiect Diwastraff' y Cyngor yn cydweddu â Chwricwlwm i Gymru. Roedd yn amlwg bod diddordeb y plant wedi'i ennyn a'u bod yn deall y Cwricwlwm, ac roedd hyn yn enghraifft o waith yn digwydd ar draws y Fro.

Nododd y Cynghorydd Ms Birch ei bod yn falch o glywed bod ysgolion yn gweithredu fel arweinwyr yn y gwaith hwn ac yn pwysleisio gwerth cymorth rhwng cymheiriaid a allai fod yn haws ei dderbyn nag adborth gan arolygiaeth.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Thomas, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol fod pob ysgol wedi derbyn £6k o gyllid cydweithredu i gefnogi cyfranogiad mewn
dysgu proffesiynol rhanbarthol a chydweithredol. Yna dyfarnwyd swm o £30k i Rwydwaith Ysgolion Arbennig a oedd yn gyfrifol am y rhanbarth cyfan.

Yna penderfynodd yr Aelodau y canlynol

ARGYMHELLWYD –

(1) Bod canfyddiadau'r adroddiad a'r dulliau sy'n cael eu datblygu i gefnogi ysgolion gyda diwygio'r cwricwlwm yn cael eu nodi.

(2) Bod y Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf bob tymor am ddatblygiadau Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys gwybodaeth am barodrwydd ysgolion ar gyfer mis Medi 2022.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Sicrhau bod yr Aelodau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ysgolion tuag at gyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

203 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 (DIWEDD BLWYDDYN) 2020/21 (CDS) –

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod am gynnydd y Cyngor yn Chwarter 4 (1 Ebrill, 2020 i 31 Mawrth, 2021) tuag at gyflawni ei ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol (2020/21) (ADP) yn unol â'i Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol.

Roedd Atodiad A yr adroddiad yn rhoi crynodeb o sut roedd y Cyngor yn perfformio yn erbyn pob un o'i Amcanion Lles a oedd yn benodol i gylch gwaith y Pwyllgor. Cyflwynwyd eithriadau perfformiad o fewn cylch gwaith y Pwyllgor yn Atodiad B yr adroddiad, a rhoddwyd sylwadau manwl ar berfformiad ar gyfer yr holl gamau gweithredu a mesurau yn Atodiad C.

Er gwaethaf yr heriau parhaus wrth ymateb i bandemig byd-eang Covid-19, roedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran cyflawni ei ymrwymiadau yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'i Gynllun Cyflawni Blynyddol. Roedd y perfformiad hwn wedi cyfrannu at statws Ambr cyffredinol ar gyfer y Cynllun yn Chwarter 4 (Ch4).

Gellir crynhoi'r cynnydd a wnaed yn erbyn y 61 cam gweithredu a'r 8 mesur chwarterol a oedd yn benodol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant fel a ganlyn:

- GWYRDD: 36 cam gweithredu (59%) a 4 mesur.
- MELYN: 0 cam gweithredu ac 1 mesur.
- COCH: 25 cam gweithredu (41%) a 3 mesur.

O'r 25 y priodolwyd statws perfformiad Coch iddynt, nodwyd effaith COVID-19 fel ffactor cyfrannol yn y llithriant a gofnodwyd ar gyfer 23 o'r camau gweithredu. Mewn perthynas â'r tri mesur y priodolwyd statws Coch iddynt, roedd effaith COVID-19 wedi cyfrannu at golli'r targed.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau gyflwyniad i'r Pwyllgor a dynnodd sylw at gyflawniadau allweddol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, ynghyd â meysydd i'w gwella. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau hefyd am gynnydd o ran adfer ar ôl y

coronafeirws gyda'r cyflwyniad yn tynnu sylw at faterion sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor.

Nododd y Cadeirydd ei bod yn gadarnhaol clywed bod cyn lleied o gamau wedi llithro oherwydd rhesymau nad oeddent yn gysylltiedig â COVID, a chan nad oedd unrhyw sylwadau pellach, penderfynwyd

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi'r canlyniadau perfformiad a chynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2020/21 fel y bônt yn alinio ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) Nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o dan-berfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

(3) Nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud drwy strategaeth adfer y Cyngor mewn ymateb i bandemig parhaus y Coronafeirws.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-3) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

204 CAU CYFRIFON 2020/21 (CDS) –

Dywedodd yr adroddiad fod sefyllfa refeniw diwedd y flwyddyn yn amrywiant ffafriol o £4k ar ôl trosglwyddiad net o £7.610m i'r cronfeydd wrth gefn.

Roedd targed arbedion refeniw o £45k wedi'i bennu ar gyfer 2020/21 a gyflawnwyd a'r gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn oedd £47.641m.

Nododd y Cadeirydd fod effaith COVID-19 yn amlwg ac y gallai problemau posibl gyda diffygion cyllidebol ddod i'r amlwg yn y dyfodol.

Yna penderfynodd y Pwyllgor y canlynol

ARGYMHELLWYD – Bod yr adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd yn cael eu cymeradwyo

Rheswm dros yr argymhelliad

Cymeradwyo'r adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd

205 MONITRO REFENIW A CHYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 31 MAI 2021 (CDS) –

Dywedodd yr adroddiad y byddai'r sefyllfa refeniw ar gyfer 2021/22 yn parhau'n heriol gyda'r pwysau parhaus i'r gwasanaeth yn weithredol ac yn ariannol oherwydd

pandemig COVID-19. Byddai hyn yn effeithio ar y ddau oherwydd gwariant ychwanegol ond hefyd oherwydd incwm a gollwyd. Roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i ymdrin â rhai o'r materion.

Roedd targed arbedion ar gyfer y flwyddyn wedi'i osod ar £59k, ac roedd y gyllideb gyfalaf gyfredol a gymeradwywyd wedi'i gosod ar £61.094m.

Yna, gan nad oedd unrhyw ymholiadau ar y pryd, penderfynwyd

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r sefyllfa o ran cyllidebau refeniw a chyfalaf 2021/22.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

206 OLRHAIN ARGYMHELLIAD CRAFFU CHWARTER 1AF 2021/22 AC AMSERLEN BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR WEDI'I DIWEDDARU 2021/22 (RG) –

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r Aelodau am gynnydd argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Craffu yn y gorffennol a'r Flaenraglen Waith wedi'i diweddaru ar gyfer 2021/22 i'r Pwyllgor ei hystyried.

Wedi'u hatodi i'r adroddiad roedd:

- Tracio Argymhellion Chwarter 1 mis Ebrill i fis Mehefin 2021 (Atodiad A)
- Argymhellion heb eu cwblhau ar gyfer Blwyddyn Fwrdeistrefol 2019-20 (Atodiad B)
- Amserlen Blaenraglen Waith y Pwyllgor wedi'i diweddaru ar gyfer 2021/22 (Atodiad C).

Yna, gan nad oedd unrhyw sylwadau gan Aelodau ynglŷn â'r uchod, penderfynwyd

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A a B yr adroddiad.

(2) Cymeradwyo a lanlwytho Amserlen Rhaglen Waith Ymlaen y Pwyllgor sydd wedi'i hatodi yn Atodiad C i'r adroddiad a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) Er gwybodaeth.